

Menter Ieuenctid Cristnogol (M.I.C.)


Llythyr Newyddion a Gweddï Rhifyn 27

Yn gwasanaethu eglwysi Sir Gâr
www.micsirgar.org


Meddai Iesu, "Wyt ti'n credu?" (Ioan 11:26)



Tymor Haf/Hydref 2018



Llun gwreiddiol o Charles Blondin yn croesi'r Niagra.



Adroddiad papur newydd am Blondin yn croesi'r Niagra. (Medi 14eg 1860).

Yn y flwyddyn 1860, cyn dyddiau rheolau iechyd a diogelwch, fe wnaeth y Ffrancwr, Charles Blondin gerdded ar draws rhaff dynn ("tightrope"), oedd wedi ei chlymu ar draws y Niagra. Roedd y rhaff yn ¼ milltir o hyd ac yn hongian 160 troedfedd uwchben y dŵr. Doedd ganddo ddim byd i'w amddiffyn a byddai un camgymeriad wedi ei weld yn disgyrn i'w farwolaeth.

Llwyddodd Blondin i groesi nid unwaith ond nifer o weithiau gan wneud pob math o driciau ar yr un pryd. Un o'r campau anhygoel hynny oedd cerdded ar draws y rhaff gyda whilber. Roedd tyfya fawr yn ei wyllo a'i edmygu. Ar ôl croesi gyda'r whilber dyma Blondin yn troi at y dyrfa gan ofyn a oeddent yn credu y gallai groesi eto ond y tro hwn yn cario person yn y whilber?

Bloeddiodd y dyrfa eu cymeradwyaeth gan ddweud eu bod yn credu yn ei allu i wneud hynny. Yna, dyma Blondin yn gofyn am wirfoddolwr i eistedd yn y whilber. Aeth tawelwch mawr ar draws y dyrfa ac ni dderbyniodd neb y gwahoddiad.

Roedd y dyrfa yn edmygu Blondin yn fawr ac er iddynt ddweud eu bod yn "credu" yn ei allu, doedd neb yn barod i fentro i'r whilber.

Mae Ioan 3:16 yn dweud, **"Mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol."** Y gair allweddol yn yr adnod hon yw'r gair "credu." Yn y Groeg gwreiddiol y gair a ddefnyddir yw "pisteuo."

Ystyr "pisteuo" yw "ymddiried yn llwyr." A ydym ni fel y dyrfa wnaeth ymgasglu wrth ymyl y Niagra, dim ond yn edmygu Iesu a "chredu" gyda'n gwefusau, neu a ydym yn ymddiried yn llwyr ynddo?

Nôl yn 1860 roedd gwahoddiad Blondin i eistedd yn y whilber yn wahoddiad i fentro bywyd yn llwyr i'w ddwylo. Mae gwahoddiad Iesu i ni heddiw yn union yr un fath, ond y tro hwn nid mentro ein hunain i berson meidrol a fyddwn, ond i Fab Duw a roddodd ei fywyd er mwyn i ni gael byw. Peidiwn felly ag edmygu Iesu yn unig, na hyd yn oed "credu" bod ganddo allu, ond ymddiriedwn ("pisteuo") ynddo fel na fyddwn yn "mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol."

Croesawu Catrin

Croeso cynnes i Catrin Hampton sydd wedi ei phenodi i fod yn weithiwr plant, ieuenctid a theluoedd yma yn sir Gaerfyrddin. Mae gan Catrin brofiad eang yn y maes, ac hyd at ynddiweddar bu'n gweithio i Scripture Union Cymru; eglwys Caersalem, Caernarfon a

Chynllun Efe yng Ngwynedd.

Bu'n gweithio gydag eglwysi'r fro i hybu'r dystiolaeth Gristnogol yn eu plith gan sefydlu ac arwain clybiau plant / ieuentid, ymweld ag ysgolion ac annerch mewn oedfaon teuluol. Bydd Catrin

yn ei swydd newydd yn cydweithio'n agos gyda M.I.C. Dyma ddywed y blog ar wefan Cynllun Efe wrth ffarwelio â Catrin: **"Heb unrhyw amheuaeth, gallwn ddweud y bydd y bobl y byddi di a Corey yn eu gwasanaethu yn freintiedig o'ch cael yn eu plith."** (Corey yw gŵr Catrin).



Am fwy o wybodaeth am yr hanes anhygoel hwn chwiliwch yr enw, "Charles Blondin" ar y we.



Catrin Hampton
Swyddog Plant / Ieuenctid a
Theluoedd E.B.C. yn sir Gâr.

Taith Bwrlwm Bro

Yn ystod y gwanwyn a dechrau'r haf, cynhaliwyd Bwrlwm Bro yr Ysgolion Sul mewn pedair canolfan ar draws sir Gaerfyrddin. Ymwelwyd â Llangadog, Y Tymbl; Rhydaman. a Chaerfyrddin. Braint oedd cael croesawu plant 4 - 12 oed ynghyd am awr o hwyl a gweithgareddau cyffrous.

Roedd y thema yn seiliedig ar ddameg y ddafad a fu ar goll. Trwy gyfrwng cyflwyniad "PowerPoint", ffilm, hud, gêm a chreffft daeth y stori yn fyw ym mhrofiad y plant. Dysgwyd ein bod ni gyd fel defaid yn mynd ar hyd ffordd ein hunain, gan grwydro i ffwrdd wrth Dduw. Ond y newyddion da a ddaeth

allan o'r ddameg yw bod Iesu y Bugail Da, a fu farw dros ei ddefaid, yn ein caru ac yn chwilio amdanom i'n dwyn yn ôl i gorlan Duw.

Y nod oedd gwneud yr Ysgol Sul yn achlysur llawn hwyl, heb gollu golwg ar y prif bwrpas o gyflwyno'r newyddion da mewn ffordd syml, ddealladwy a pherthnasol ar gyfer heddiw.

Am ragor o luniau o'r cyffro a'r hwyl o'r pedair canolfan ble cynhaliwyd Bwrlwm Bro ewch i www.micsirgar.org



Un o'r plant wedi gwisgo fel bugail cyfoes yn barod i fynd i gyfrif y defaid gyda'i gi ffyddlon wrth ei ochr.



Mae gemau yn rhan bwysig o Fwrlwm Bro ac yn y llun hwn mae un o'r plant yn cludo gwlan ar ei drwyn!



Bwrlwm Bro Caerfyrddin a'r cylch



Bwrlwm Bro Cwm Gwendraeth a'r cylch



Bwrlwm Bro Cylchoedd Llanymddyfri, Llangadog a Llandeilo



Bwrlwm Bro Dyffryn Aman a'r cylch



Un o'r plant yn cymryd y darn gwlan o flaen ei drwyn a'i osod ar y ddafad.



Plant yn brysur yn gwneud creffftwaith ar thema Y Ddafad A Fu Ar Goll.

Ymaelodi Â M.I.C.

Yn ystod mis Medi bydd eich eglwys yn derbyn gwahoddiad i adnewyddu ei haelodaeth o'r Fenter am y flwyddyn 2018 - 2019. Gobeithio'n fawr cawn eich cefnogaeth i barhau gyda'r gwaith o rannu'r newyddion da gyda'r genhedlaeth ifanc yn ein sir.

Mabolgampau'r Ysgolion Sul



Y pedwar tîm a ddaeth i'r brig yn y ras gyfnewid i ferched blynyddoedd 3-6 yn derbyn eu gwobrau wrth Y Parchg. Tom Defis (cadeirydd M.I.C.).

Un o brif ddigwyddiadau cymdeithasol y flwyddyn i nifer o Ysgolion Sul a chlybiau Cristnogol sir Gaerfyrddin yw'r mabolgampau blynyddol. Unwaith eto eleni daeth cannoedd ynghyd i gefnogi'r fenter hon sy'n creu llawer o gyffro ac sy'n rhoi pleser o'r mwyaf i blant a phobl ifanc o bob oed.

Yn dilyn rowndiau rhagbrofol ar gyfer eglwysi dwyrain a gorllewin y sir, cynhaliwyd y rowndiau terfynol yng nghanolfan hamdden Caerfyrddin.



Dwy o'r merched h n yn llawenhau yn dilyn eu llwyddiant yn y mabolgampau.

Gyda'r ganolfan yn llawn i'r ymylon cafwyd amrywiaeth eang o gystadlaethau ar gyfer plant ac ieuencid o 3 – 18 oed. Roedd rhywbeth yno i siwtio pawb gan gynnwys cystadlaethau unigol fel rhedeg; ras rwystrau; taflu pwysau; naid hir; taflu pêl am nôl; neidio cyflym; a thaflu peli at darget. Roedd yno hefyd cystadlaethau tîm, megis rasys cyfnewid a thynnu rhaff.

Gwobrwywyd pawb wnaeth gyrraedd y rowndiau terfynol gyda medalau neu dystysgrif gan Y Parchg. Tom Defis



Un o blant Ebeneser, Llandeilo yn gwibio'i ffordd i ennill y fedal "aur" yn y ras rwystrau i fechgyn blynyddoedd 3-4.

(cadeirydd M.I.C.). Cafwyd cystadlu brwd, ond yn fwy pwysig na dim, cafwyd nosweithiau llawn hwyl oedd wrth fodd pawb oedd yn bresennol. Roedd yr holl ddigwyddiad yn hysbyseb o'r math orau i'r Ysgol Sul ac i'r clwb Cristnogol.

Am ragor o luniau o'r rowndiau terfynol ewch i wefan M.I.C. sef www.micsirgar.org (Diolch eto i Bryan Davies am ei waith fel ffotograffydd).



Uchod gwelir y bedair wnaeth gyrraedd rownd derfynol y gystadleuaeth o daflu peli at darget ar gyfer merched blynyddoedd 3-6.



Un o hobl ifanc Capel Blaenycod yn dangos techneg a dawn wrth ennill y fedal "aur" yn y naid hir i ferched blynyddoedd 7-8.



Tîm Capel Bancyfelin yn dangos penderfynolrwydd a nerth i ennill y fedal aur yn y gystadleuaeth tynnu rhaff oed uwchradd.

Joio Gyda Iesu


**Dydd Sul Tachwedd 4ydd am 2:30 y.p.
Gellimanwydd, Rhydaman**

Estynnir i chi groeso cynnes i oedfa flynyddol M.I.C. Bydd hon yn oedfa gyfoes i'r teulu cyfan. Y siaradwr gwadd fydd Ben Thomas sy'n gyn ohebydd gyda BBC Cymru ond sydd nawr yn weinidog yn Eglwys Deuluol Cricieth.



Ben Thomas

Gwestai gwadd arall fydd Emyr Lewis, cyn gaptan tîm rygbi Cymru.



Emyr Lewis

Ceir hefyd gyfraniadau wrth Ysgolion Sul lleol, côr Ysgol Gymraeg Rhydaman a pherfformir sgets gan "Gwmni'r Fedwen." (Saron).

Llythyr Newyddion a Gweddï Rhifyn 27

Nigel Davies,
Swyddog Plant ac Ieuencid M.I.C.
Llain Deg,
Llangynin,
San Clêr,
Caerfyrddin SA33 4JY

Rhif ffôn: (01994)230049
E - bost: mic@uwclub.net

Clwb Gwyliau'r Pasg

Yn ystod gwyliau'r Pasg cynhaliwyd Clwb Gwyliau Cristnogol dros gyfnod o dri diwrnod yn Neuadd Llanarthne gyda 23 o blant yn mynychu. Roeddent yn ddisgyblion o ysgolion Nantgaredig; Cwrt Henri a Llanddarog.

Cafodd y plant amser wrth eu bodd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o gemau, cystadlaethau a chreffft. Yn ganolbwynt i'r cyfan oedd y neges Feiblaidd a thrwy gyfrwng cyflwyniadau bywiog a chyfoes daeth y newyddion da am Iesu Grist yn fyw i'r plant.

Trefnwyd y Clwb Gwyliau gan Henaduriaeth Myrddin ac mewn cydweithrediad â M.I.C. Am ragor o luniau ewch i www.micsirgar.org



Y plant a'r arweinydd oedd yn bresennol ar ddiwrnod olaf y Clwb Gwyliau.



Cerdded gyda thraed fel cawr.



Am y cyntaf dros y rhwystrau. Ar frys ar y bwrdd llithro.



Buddugwyr yn y gystadleuaeth addurno crempog.

Y GORNEL WEDDI

"Bydd drugarog wrthyf, a gwranddo fy ngweddi."
(Salm 4:1).



Buaswn yn gwerthfawrogi eich gweddïau am y pwyntiau canlynol:

DIOLCH.....

- am yr hwyl a gafwyd yn ystod taith Bwrlwm Bro ac am y cyfle i rannu'r newyddion da am Iesu Grist.
- am yr ymateb da i'r mabolgampau ac am y cyffro a'r mwynhad gafodd y plant a'r bobl ifanc wrth gystadlu.
- am lwyddiant Clwb Gwyliau'r Pasg yn Llanarthne ac ymateb cadarnhaol y plant i neges yr efengyl.

DEISYFWN FENDITH DUW

- ar waith y tymor newydd yn yr Ysgolion Sul a'r clybiau Cristnogol.
- ar yr oedfa, "Joio Gyda Iesu." (Tachwedd 4ydd).
- ar fy nhaith o amgylch y sir yn ystod tymor yr hydref yn annerch mewn oedfaon teuluol.
- ar Catrin Hampton wrth iddi ddechrau ar ei gwaith fel gweithiwr plant, ieuencid a theluoedd yma yn sir Gâr.

GOFYNNWN AM.....

- ofal Duw ac eneiniaid yr Ysbryd Glân ar waith M.I.C. Gweddiwn i'r Fenter fod yn fendith i eraill.

Hiwmor Duw

Un tro gofynnodd rhyw ddyn wrth Dduw, "Beth yw miliwn o flynyddoedd fel i ti?" Atebodd Duw, "Dw i'n byw tu fas i fyf amser ac mae miliwn o flynyddoedd fel munud i fi."



Synnodd y dyn yn fawr a dyma fe'n gofyn eto, "Os felly, beth yw miliwn o bunnoedd fel i ti?" Atebodd Duw, "Mae miliwn o bunnoedd fel ceiniog i fi." Gwelodd y dyn ei gyfle a dyma fe'n gofyn i Dduw, "A wneud di plis rhoi un geiniog i fi?" Atebodd Duw, "Mewn munud!"



Cofiw'n eiriau Iesu: **"Lle bynnag mae dy drysor di y bydd dy galon di."** (Mathew 6:21).